# CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod Blynyddol o Bell, 21 Mehefin, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr R. Goode a M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Goode i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Penodi’r Cynghorydd D. De’Ath i swydd Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â’r Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 3. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd D. De’Ath (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. DATGANIAD O GYFRIFON HEB EU HARCHWILIO GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2022/23 (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) BOD Datganiad o Gyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cael ei gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 28 Mehefin, 2023, gan alluogi'r cadarnhad terfynol i ddigwydd erbyn y dyddiad cau ar gyfer 30 Mehefin, 2023.

(3) AWDURDODI'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon 2022/23 heb eu Harchwilio i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.

(2&3) Hwyluso cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO'r adroddiad ac awdurdodi Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg, i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaethau Cyflogedig ar gyfer y Cynghorau partner eraill.

(2) NODI sefyllfa alldro 2022/23 heb ei harchwilio.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 o'r Cytundeb Cydweithio.

(2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. CYNLLUN BUSNES GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Busnes Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023/24.

(2) AWDURDODI Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2023/24 pe cyfyd yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae'r Cytundeb Cydweithio (CC) yn nodi (yng nghymal 14) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn datblygu Cynllun Busnes drafft dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli.

(2) Pwrpas y Cynllun Busnes, fel y'i pennir gan y CC, yw diweddaru'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes blaenorol; ac i nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y CC ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo, ac ar ôl ei gymeradwyo, ei fod yn cael ei ddosbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Taledig pob Awdurdod sy'n Cymryd Rhan.

(3) Byddai awdurdod Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi mân newidiadau i gael eu gwneud, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cyd-bwyllgor. Sicrhau y gellir gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

EITEM AGENDA 9. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI IECHYD A DIOGELWCH Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2023/24 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2023/24.

(2) AWDURDODI Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2023/24 pe cyfyd yr angen.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdod gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac i gydymffurfio â chanllawiau statudol.